YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

31 Mawrth 2023

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Llwyddiannau Eisteddfod Sir -** Llongyfarchiadau gwresog i'n holl gystadleuwyr yn yr Eisteddfodau Sir dros y pythefnos diwethaf sydd yn golygu bydd carfan helaeth o gymuned Glantaf yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri ym mis Mehefin. Mae'r llwyddiannau hynny'n cynnwys: Côr Merched Hŷn; Côr Bechgyn Iau; Ensemble Offerynnol Iau a Hŷn; Cyflwyniad Dramatig; Cyflwyniad Theatrig; Ensemble Cerdd Dant; Grŵp Dawnsio Gwerin Iau a'r Côr Gwerin, yn ogystal Deuawd Cerdd Dant: Cian a Matthew; Deuawd Iau a Hŷn: Eira ac Awen & Megan a Beca; Unawd piano: Tom Davies; Unawd taro: Steffan John; Dawns Werin Unigol ac Unwad Llefaru: Mari Fflur; Unawd Cân Werin: Elen Morlais; Unawd Bechgyn: Cian Glyn; Unawd Chwythbrennau: Owen Frohawk. Llongyfarchiadau hefyd i bawb gystadlodd ac ennill medal Arian ac Efydd: *Da iawn chi!*


*Pencampwyr y Sir – Merched GTaf*

**Merched GTaf –** Hyfryd sôn am lwyddiannau eithriadol ein timau merched dros yr wythnosau diwethaf. Llwyddodd ein timau merched i gyrraedd rowndiau sirol terfynol hoci ym mhob grŵp oedran, ac fe'u coronwyd yn Bencampwyr yn Bl7, 9, 10 ac 11! Glantaf hefyd oedd Pencampwyr Ysgolion Cymru dan 12 yn y Ganolfan Hoci Genedlaethol yng Nghaerdydd. Enillodd tîm rygbi dan 14, 7 bob ochr y Plât yn nhwrnament cenedlaethol Urdd URC. O fewn pêl-rwyd, aeth tîmau pob blwyddyn i Rownd Derfynol y Sir gyda Bl 7, 8 ac 11 yn cael eu coroni'n Bencampwyr. Sioned John a Mabli Phillips oedd yn cynrychioli Cymru Traws Gwlad yn nhwrnament ysgolion Prydain yn Lerpwl. Newyddion gwych hefyd bod Efa Wiliams, Beca Evans (Bl12) ac Esther Woolley (Bl11) wedi'u dewis fel rhan o Daith Criced Merched Cymru i India, sy'n cynnwys pedair gêm, sesiynau hyfforddi mewn ysgolion tra'n mwynhau profiadau diwylliannol gyfoethog ym Mumbai. ***#felmerch***



*Tîm Hŷn - Pencampwyr y Gwpan*

Llongyfarchiadau hefyd i'r bechgyn gyda'n tîm hŷn 7 bob ochr, bellach yn Bencampwyr Cwpan Cenedlaethol yn yr Urdd URC. Mae tîm XV Bl9 wedi cyrraedd rownd derfynol *Sportsmag* ysgolion Prydain, i'w chynnal yn Ysgol Rygbi ar y 19eg o Ebrill. Da iawn hefyd i Osian James (Bl13) a ddewiswyd i gynrychioli carfan Rhwyfo Ieuenctid Prydain. Hoffwn hefyd longyfarch Tomi Roberts Jones (Bl12) gan iddo gynrychioli Athletau Cymru yn Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad yn Cape Town, De Affrica – camp arbennig iawn – gwych Tomi!

***Saum*, Ymprydio yn ystod mis Ramadan -** Dymunwn yn dda i'n holl deuluoedd Mwslimaidd yn ystod ymprydio *Saum* drwy fis Ramadan a'r disgyblion hynny a fydd yn cadw at rai neu bob agwedd o'r ympryd. Bydd *Eid ul Fitr*, sef diwedd ymprydio yn cael ei ddathlu ar 21 Ebrill. *Eid Mubarak!*


*Cynrychioli Cymru: Esther, Efa a Beca*

**Adroddiadau ac Arholiadau –** Mae adroddiadau llawn Bl9&13 wedi'u cyhoeddi yr wythnos hon yn ogystal ag adroddiadau interim pob disgybl. Mae arholiadau TGAU a Safon Uwch ymarferol hefyd wedi dechrau gyda phob disgybl yn cael eu hamserlenni arholiadau unigol y tymor hwn. Gwiriwch y rhain yn ofalus gan eu bod yn cynnwys yr holl gofrestriadau arholiad ar gyfer

pob myfyriwr unigol.  Bydd arholiadau TGAU ac UG yn dechrau ar y 12fed o Mai gyda'r diwrnod olaf o ddysgu ar gyfer Bl11&12 ar ddydd Gwener, 12fed o Fai. Sylwer bydd Bl12 yn dychwelyd i wersi yn dilyn eu harholiadau ddydd Llun y 12fed o fis Mehefin.



*Tîm Lego Bl7 : enillwyr y wobr arloesi!*



*Taith Gerdded Bl8*

**Taith Gerdded Nawdd Bl 8** – Casglwyd dros £800 gan gerddwyr a disgyblion brwdfrydig Bl8 tuag at Apel Arch Noa, Ysbyty Plant i Gymru!  *Da iawn chi!*

**Gwobr Dyslecsia** – Yn ystod ein HMS Staff diwethaf, roeddem yn falch iawn o dderbyn Gwobr Efydd yr Awdurdod Lleol o ran hyfforddiant a chefnogaeth staff i ddisgyblion â dyslecsia.  Edrychwn ymlaen at hyfforddiant pellach a chodi ymwybyddiaeth wrth i ni anelu at y Wobr Arian.

Bronze Award — Cardiff Local Authority and Schools working in partnership — dyslexia — Gwobr Efydd 2023-2025 — CARDIFF CAERDYDD

**Cinio Ysgol** – Yn anffodus, clywsom yr wythnos hon bod cost *pryd y dydd* o fewn y ffreutur yn cynyddu y tymor nesaf o £3.05 i £3.20 i ddisgyblion oedran uwchradd.

**Twmpath Ddawns *Cyfeillion Glantaf* –** Diolch i bawb a gefnogodd ein Twmpath yr wythnos diwethaf ac a gododd dros £900 i gronfa'r *Cyfeillion*.  Roedd hi'n noson wych hefyd – digon o chwerthin, bwyd blasus a chwmni da, cadwch lygad am ein digwyddiad nesaf ....




**Ffonau symudol yn yr ysgol -** Unwaith eto rydym yn gofyn yn garedig i chi ein cefnogi gyda defnydd disgyblion o ffônau symudol yng nghymuned yr ysgol.  Yn anffodus, mae angen i ni ailadrodd rhai negeseuon cryf ynglŷn â chamddefnydd o ffonau, gan ein bod wedi gweld cynnydd yn eu defnydd yn ogystal â defnyddio camerâu i ffilmio disgyblion a staff heb eu caniatâd.  Ar ben hynny, mae defnyddio ffonau symudol i gyfathrebu negeseuon diflas ar gyfryngau cymdeithasol yn llawer rhy gyffredin ac mae hyn ag effaith uniongyrchol ar iechyd meddwl a lles unigolion.  Gofynnwn i chi siarad â'ch plant ynghylch eu defnydd, gan eu cefnogi i roi gwybod am achosion o gamddefnydd ac i ddefnyddio eu ffonau'n ddiogel a gyda aeddfedrwydd bob amser.

**I gloi**: Hoffwn longyfarch a dymuno'n dda i Osian Jones (Bl7), Megan Jones (Bl10) a Mari Nixon (Bl11) wrth iddynt fynd i Bencampwriaethau Band Pres Ieuenctid Prydain ym Manceinion fel rhan o Fand Pres Ysgolion Caerdydd. Llongyfarchiadau gwresog hefyd i'n  tîm bl7 ym Mhencampwriaethau Lego a gynhaliwyd yn Stadiwm Principality lle sicrhawyd y Wobr Arloesedd i Glantaf.  Hoffwn nodi ein diolch diffuant i Eglwysi Teilo Sant ag Eglwys *Our Lady of Lourdes* am gysylltu â ni gyda'u cynnig caredig i gefnogi teuluoedd lleol yn ystod y caledi presennol. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio er mwyn cynnig cymorth ymarferol i'n teuluoedd sydd yn gweld y cyfnod yn anodd.   Gan mai dyma'r cylchlythyr olaf y tymor hwn hoffem ddymuno'n dda i chi dros wyliau'r Pasg a'ch hatgoffa ein bod yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol ddydd Llun 17 Ebrill (wythnos 1).   Os ydych chi'n treulio ychydig ddyddiau yn tacluso a chymoni ar adeg yma'r flwyddyn, rydym o hyd yn chwilio am wisg Add Gorff (bechgyn /merched) o ansawdd da, nad oes eu hangen arnoch chi bellach.  Derbyniwn bob rhodd yn ddiolchgar a dymuniadau gorau i bawb dros y gwyliau,

Yn gywir

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Tomi Roberts Jones yn cynrychioli Cymru yn Ne Affrica yn Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad*